Taith Agincourt Cymru

Mae Brwydr Agincourt yn un o'r digwyddiadau enwocaf yn hanes Prydain. Mae'r stori am fuddugoliaeth lluoedd Harri V yn erbyn byddin fawr Ffrainc ym 1415 wedi'i hanfarwoli mewn straeon, dramâu a barddoniaeth. Mae Taith Agincourt Cymru yn adrodd stori'r bobl a'r lleoliadau yn yr ardal hon a chwaraeodd rôl ym muddugoliaeth enwog Harri.

Ym mhob lleoliad ar Daith Agincourt Cymru, fe welwch baneli yn adrodd stori ein cysylltiadau lleol ag Agincourt, ynghyd â dolenni i ffynonellau o wybodaeth bellach ar-lein. Mewn rhai lleoliadau, mae coeden neu gelli o goed wedi'u plannu i gofio am y Frwydr.

AGINCOURT 600 WALES – CYMRU LEGACY – ETIFEDDIAETH

COED CADW WOODLAND TRUST

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Gronfa Goffa Agincourt 600

1 TRECASTELL

Ymwelwch â chartref nifer o frwydrwyr Agincourt, gan gynnwys Watkin Lloyd, sef capten y fintai o Frycheiniog yn ôl pob sôn. **Dilynwch y Daith yn Neuadd y Pentref yn Nhrecastell**

2 ABERHONDDU

Dysgwch am y bonheddwyr a'r saethyddion lleol a fu'n ymladd yn Agincourt yng Nghadeirlan Aberhonddu. **Dilynwch y Daith o Bromenâd Aberhonddu i Gadeirlan Aberhonddu**

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH EWCH I:

www.breconbeacons.org/agincourt
www.midwalesmyway.com
www.visitmonmouthshire.com/agincourt
www.wyedeantourism.co.uk/agincourt

3 TRE-TŴR

Mae'n debyg mai dyma'r fan y mwstrodd Harri V ei fyddin ym 1415, a dyma hefyd gartref teuluol Roger Vaughan o Bredwardine, a ymladdodd yn arwrol yn Agincourt. **Dilynwch y Daith yn Llys a Chastell Tre-tŵr**

4 Y FENNI

Ewch i weld beddrod William ap Thomas, un o arwyr Agincourt, a'i wraig Gwladys yn Eglwys Priordy'r Santes Fair, neu 'Abaty San Steffan Cymru'. **Dilynwch y Daith yn Eglwys Priordy'r Santes Fair**

5 RHAGLAN

Cartref William ap Thomas, 'Marchog Glas Gwent', a fu'n ymladd ochr yn ochr â Harri V yn y Frwydr. **Dilynwch y Daith yng Nghastell Rhaglan**

6 TREFYNWY

Man geni Harri V, y gŵr a enillodd y frwydr yn Agincourt. Ewch am dro i weld y Brenin yn Sgwâr Agincourt, yn y gwydr lliw yn Eglwys Priordy'r Santes Fair ac yn y murlun yn Neuadd y Sir. **Dilynwch y Daith yng Nghastell Trefynwy**

7 ST BRIAVELS

Dyma galon Cantref St Briavels, ardal a anfonodd mwy na 100 o gloddwyr i ryfel gyda Harri V. **Dilynwch y Daith wrth y Twmpath y tu allan i Gastell St Briavels**

8 CIL-Y-COED

Cartref y teulu de Bohun, teulu Harri V ar ochr ei fam, a Syr William Bourchier, un o farchogion mwyaf ffyddlon y Brenin. **Dilynwch y Daith yng Nghastell Cil-y-coed**